120

x/5.

# Can Newydd,

Yn rhoddi hanes am

## *MARGARET JENKINS,*

Yr hon a ddaeth i ddiwedd truenus,

Sef boddi yn y POUND MAWR,
Gerllaw Dowlais, yn Merthyr Tydfil,
sir Forganwg.

Yr hyn a ddigwyddodd Gorphenhaf 13eg, 1821.

*Cenir ar "Bryniau'r Iwerddon."*

1.

HOLL wyr a gwragedd Cymru yn fwyngu dewch ymlaen,
A chwithau'r merched ifangc yn fawrion ac yn fân,
Cewch genyf air o gyngor, yn sobr byddwch byth,
Cyn cael gwynebu angau, mae'r gelyn yn ein plith.

2.

O fewn i sir Forganwg, o'n blaen, y Cymry cu,
Ni welsom beth annedwydd, trwy waith y gelyn du;
Gerllaw i bentre' Merthyr yn gywir dyma'r gwir,
Bu tro alaethus, poenus, arswydus, yn y sir.

3.

Merch ifangc oedd mewn afiaeth yn lanwaith ar y lan,
O fewn ardaloedd Dowlais, yn foddus dyna'r fan,

Yn caru megis llawer, heb drymder iddi ar dro,
Nes myn'd trwy demptiad Satan yn fuan iawn o'r fro.

4.

'Roedd hon ar bwynt priodi yn llon yn mysg pob llu,
A chanddi beth parodrwydd nêt hylwydd yn y tŷ;
Nes iddi ar ddiwedydd, annedwydd oedd y nôd,
Rho'i' chwmp'ni i fachgen arall yn glir a cholli' chlod.

5.

A'i chariad pan y clywodd a ddigiodd wrth y ddau,
Oddiwrth yr hyn bromeisiodd fe giliodd gan naccau;
A'r ferch pan glywodd hynny ddechreuodd synnu'n siwr,
Gan ddweud, fe fydd fy angau oer derfyn yn y dw'r

6.

Yr oedd ei chyd-gydmariaid a'u bwriad yn ddi ball,
O'r farn ei bod yn feichiog, 'run modd y naill a'r llall;
'Roedd rai yn ei goganu, gan goffa am dani'n dyn,
A hithau heb gyfaddef, yn ffaelu goddef hyn.

7.

Bu felly ddyddiau lawer mewn prudd-der ar ar bob pryd,
Gan ddal i rhoi addewid ddychrynllyd iawn [o hyd;

Gan ddweud mi fyddaf foddi mewn culni heb
naccau,
A Satan, wrth ei chynnyg, a'i tynnai i'w ffyr-
nig ffau.

8.

Aeth hon yn mis Gorphenhaf y trydydd dydd
ar ddeg,
Am saith o'r gloch nos Wener, heb wybod
dim i neb;
Oddiwrth ei gwaith hi gerddodd ar gyhoedd,
clywch i gyd,
I'r llyn yn llwyr ollyngodd, gadawodd hyn
o fyd.

9.

Yr oedd dyn a *Chart* yn *passio*, yn gweled
teg ei gwawr
Yn tynnu ei phais a'i 'ffedog, a'i *gown*, a'u
dodi i lawr,
A'r dyn a rhedodd yno i'w safio'n ddigon
siwr,
A gwelodd mewn modd gwaeledd ei diwedd
yn y dw'r.

10.

Os chwiliwn yr ysgrythur yn gywir bob yr un,
Mae'n dweud nad oes achubudd i'w gael i
leiddiad hun;
Nid wyf yn ewyllysio ei barnu tra b'wyf byw,
Hi ga'dd yn ol ei haeddiant gan Feichiau
dynol-ryw.

11.

Yr oedd yn beth galarus i'w thad a'i thyner
fam,
Gael gwel'd ei chorph yn dyfod o'r dyfnder
mawr i'r lan;

Ac hefyd i'w pherth'nasau, ei ffrynds a'i
cheraint gwiw,
A beunydd trwy'r holl wledydd bo'n rhybudd
i bob rhyw.

12.

Ca'w'd llawer o rhybuddion rhai llymion yn
mhob lle,
Waith i ni bechu'n erwyn yn erbyn brenin ne';
Wel, dyma rhybudd eilwaith ysywaeth i ni
sydd,
I wneud ein *biliau'n* barod cyn trallod ddaw
rhyw ddydd.

13.

Gweddiwn ar yr Arglwydd pen llywydd nef
a llawr,
Am nerth i gadw'n bywyd, bob munud, ennyd,
awr;
O gwelwn yn gyfannedd oer ddiwedd hon a
ddaeth,
A ffown o'r llwybr llydan rhag bod mewn
cyfran caeth.

14.

Cymmerwch hyn o ganiad modd difrad a
didwyll,
Mae'n hanes wirioneddol 'rwy'n pennu nawr
mewn pwyll;
Rho'f ar fy nghân derfyniad, mewn noddad
is y nen,
Waith felly mae fy 'wyllus wir foddus, bawb,
Amen.

RICHARD WILLIAMS,
Bardd y gwagedd, a'i cant.

---

James, Argraphydd, Merthyr Tydfil.